

Dyddiad cyhoeddi: 16 Mehefin 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

Mae'n gyngor gan y llywodraeth, pan fydd pobl o wahanol gartrefi dan do gyda'i gilydd, ei bod yn bwysig darparu awyru da. Mae canllawiau'r llywodraeth ar gyfer gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus yn dweud "Lle bo'n bosibl, dylai gweithredwyr a busnesau trafnidiaeth sicrhau bod cyflenwad awyr ffres yn llifo'n gyson drwy gerbydau" a gallech ystyried "agor drysau a ffenestri lle bo hynny'n bosibl ac yn ddiogel". Pan fyddaf yn teithio ar eich trê'n dosbarth 150, mae'r ffenestri ar gau gan amlaf. Er mwyn tawelu fy meddwl, a allwch fy nghyfeirio at y dystiolaeth bod digon o awyru'n digwydd pan fydd y ffenestri ar gau?

Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:

Yn Trafnidiaeth Cymru rydyn ni'n gweithio gydag arbenigwyr yn y Diwydiant i asesu'r risgiau i deithwyr a chyflwyno mesurau i leihau'r risg hon ar sail y wybodaeth ddiweddaraf.

Fel aelodau o sawl corff yn y diwydiant, gan gynnwys y Bwrdd Diogelwch a Safonau Rheilffyrdd (RSSB) rydym yn gweithio gyda nhw i ddefnyddio ymchwil gyfredol o bob rhan o'r DU, gan gynnwys cyfraddau heintio cymunedol, nifer y teithwyr ar drenau ac ymddygiad teithwyr mewn perthynas â chydymffurfio â gorchuddion wyneb a chadw pellter cymdeithasol, mesurau glanhau, y boblogaeth â gwrthgyrff, ac awyru (yn naturiol drwy agor drysau, ffenestri a systemau awyru).

Nid yw'r ymchwil hwn yn cael ei gyhoeddi'n gyffredinol oherwydd gallwch werthfawrogi bod y darlun yn newid bob dydd gyda mwy o bobl yn cael eu brechu, amrywiadau newydd ac ati, felly doedd dim modd i ni gynnal sgôr risg byw go iawn, ond rydyn ni'n defnyddio'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu ac unrhyw fesurau ychwanegol. Gallwn hefyd weld bod ystadegau cenedlaethol ar gyfer Covid 19 yn parhau i ostwng, gan nodi eto y risg o amrywiadau sy'n peri pryder.

Mae gan RSSB wybodaeth ar eu gwefan sy'n dangos, yn ystod mis Awst y llynedd, mai 1 mewn 11000 oedd y risg o Covid ar gyfer y rhwydwaith cyfan, gan gynnwys Cymru, Lloegr a'r Alban [Rail still safer than road during Covid-19 \(rssb.co.uk\)](https://www.rssb.co.uk) Mae hyn wedi gwella'n aruthrol ac roedd yr adroddiad diwethaf yn llai nag 1 mewn 56000. Pan fyddwn ni'n defnyddio ein ffactorau ein hunain gyda threfniadau glanhau, gwahaniaethau rhanbarthol mewn cyfraddau heintio, mathau o drenau a cherbydau, mathau o deithiau, pellter wyneb a chadw pellter cymdeithasol, rydyn ni'n gwybod bod ein proffil risg tua 40 i 50% yn is na'r DU drwyddi draw.

O ran awyru, mae gan y rhan fwyaf o'n cerbydau system awyru sy'n denu aer ffres, ac mae ymchwil yn dangos bod agor drysau mewn gorsafoedd hefyd yn lleihau'r risg yn sylweddol yn ogystal ag agor ffenestri. Yn anffodus, oherwydd y tywydd ac ymddygiad teithwyr, mae'r rhain yn cael eu cau, ac o ganlyniad i gadw pellter cymdeithasol ni all ein staff gyrraedd seddi gorlawn i'w hagor, ac mae'n rhaid i ni ddiabyddu ar ein cyhoeddiadau ac, yn ystod cyfnodau tawelach, gallwn eu hailagor. Ar gyfer egwyddorion dylunio diogelwch, ni chaniateir i ni gloi ffenestri yn agored.

Hoffem eich sicrhau hefyd bod gennym lanhawyr ychwanegol sy'n glanhau'n drylwyr yn ystod y nos, a glanheir pwyntiau cyffwrdd ychwanegol yn ystod y dydd gyda deunyddiau gwrth-covid, ar drenau ac mewn gorsafoedd. Mae ein timau'n atgoffa pobl i wisgo gorchudd wyneb oni bai eich bod wedi'ch eithrio, a gobeithio y byddwch wedi gweld ein holl wybodaeth a'n harwyddion ar gadw pellter cymdeithasol er mwyn helpu pawb i gadw'n ddiogel. Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal y safonau hyn, rydym yn cynnal archwiliadau ansawdd mewnol ac rydym bob amser yn ymateb i adborth ar gyfer ein cwsmeriaid gwerthfawr.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".